------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2017

Amser: 09.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru


Rhag-gyfarfod (09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 2

(09.15 - 10.15) (Tudalennau 1 - 20)

- Stuart Ropke, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Joe Logan, Prif Weithredwr, Tai Calon
- Ffrancon Williams, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Debbie Green, Prif Weithredwr, Coastal Housing

## 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 3

(10.15 - 11.15) (Tudalennau 21 - 24)

- Jennie Bibbings, Rheolwr Ymgyrchoedd, Shelter Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

**Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod**

(Tudalennau 25 - 31)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd**

(Tudalennau 32 - 42)

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'r Papur Gwyn 'Diwygio llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad'**

(Tudalennau 43 - 54)

**Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

(Tudalennau 55 - 62)

**Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru**

(Tudalennau 63 - 65)

**Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â diwygio llywodraeth leol**

(Tudalennau 66 - 67)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Egwyl (11.15 - 11.30)

## 6 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.

(11.30 - 11.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Consultation on the Abolition of the Right to Buy and Associated Right (Wales) Bill

**About Us**

**Community Housing Cymru (CHC )** is the representative body for housing associations and community mutuals in Wales, which are all not-for profit organisations. Our members provide over 158,000 homes and related housing services across Wales. In 2015/16, our members directly employed 9,109 people and spent nearly £2bn (directly and indirectly) in the economy, with 89% of this spend retained in Wales. Our members work closely with local government, third sector organisations and the Welsh Government to provide a range of services in communities across Wales.

**Our objectives are to**:

- Be the leading voice of the social housing sector.
- Promote the social housing sector in Wales.
- Promote the relief of financial hardship through the sector's provision of low cost social housing.
- Provide services, education, training, information, advice and support to members.
- Encourage and facilitate the provision, construction, improvement and management of low cost social housing by housing associations in Wales.

1. CHC welcomes the opportunity to respond to the Equality, Communities and Local Government Committee's inquiry into Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Bill.

2. We support **the general principles of the Bill, and the need for legislation to deliver the policy intention i.e. to protect the supply of social housing from further erosion in the face of a high level of demand and a supply shortage**. Since the inception of the policy, 139,233 units of social housing stock have been

sold through Right to Buy and Right to Acquire in Wales[1]. This has both reduced the overall quantum of social housing in the country and added an element of uncertainty for social housing providers, with the possibility that the homes they invest in may not be long term assets.

3. For example, since 2007/08, housing associations in Wales have provided an additional 17,864 affordable homes across Wales. Over the same time period, 761 housing association homes and 1906 local authority homes have been sold through Right to Buy and Right to Acquire.

4. Approximately 90,000 households are estimated to be on social housing waiting lists in Wales, and the Public Policy Institute for Wales estimates that housing need in Wales is between 8,700 and 12,000 additional homes per year, of which an estimated 40% should be in the social housing sector[2].

5. In December, CHC signed a pact with Welsh Government and the Welsh Local Government Association to work towards delivering the Welsh Government's 20,000 homes target, which is a key part of tackling the housing crisis we have described. Ending the Right to Buy and Right to Acquire is a further tool to tackle this crisis, and gives housing associations confidence to invest in building those homes and investing in them for the long term.

6. Alongside the issues that Right to Buy and Right to Acquire have caused with the supply of social housing and investor confidence, there has also been an impact on communities as a result of the policy. A number of housing associations have reported issues whereby tenants who exercise their Right to Buy or Acquire did so and were later unable to afford to maintain them to the same standard as those homes in the same areas which are still managed by the landlord and have benefited from work on their home to bring it up to Welsh Housing Quality Standard (WHQS). In the first instance, the lack of maintenance on the home that has been bought can mean it falls into disrepair, causing problems both for the

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Social-Housing-Sales/totalsocialhousingsales-by-period-providertype

[2] https://sites.cardiff.ac.uk/ppiw/files/2015/11/Future-Need-and-Demand-for-Housing-in-Wales-REVISED.pdf

community and for the owner's health. Secondly, it can also have a negative impact on the appearance and upkeep of the estate/community.

7. Further to this, where the leasehold on a flat has been bought through Right to Buy or Acquire, this can cause significant issues for the rest of the block of flats in the eventuality of repairs being needed. Often the leaseholder can block, or is unable to afford, the repairs required to be undertaken under the terms of the lease. The social landlord is then faced with either not undertaking the repairs or being forced to subsidise the leaseholder at the expense of its social tenants.

8. Finally, there is evidence that Right to Buy has had an impact on community cohesion. Where previously tenants would live alongside neighbours for a protracted period, forming the relationships key to successful community development, the Right to Buy or Acquire has undermined this, with former social housing tenants selling on properties to let them out privately. A report by *Inside Housing*, based on Freedom of Information requests from 91 councils across the UK, found that nearly 40% of flats and maisonettes sold through Right to Buy are now being privately let.

9. On a similar note, stock that was previously managed by the social landlord now being in private ownership also makes it more difficult for housing associations to effectively manage reports of anti-social behaviour.

10. We note the concerns of some Assembly Members who feel that ending the Right to Buy in Wales will reduce home ownership options for those living in social housing. However, we believe housing associations are well placed to continue to offer affordable options for those who to aspire to own their own home. As of 2015-16, Welsh housing associations had delivered 1,676 homes for shared ownership in Wales, and a further 2,996 homes through Welsh Government's Homebuy scheme.

11. There is appetite and capacity in the sector to deliver more home ownership, and we are currently in discussions with the Welsh Government as a sector about the delivery of a Rent to Own model. The significant advantage of low cost home ownership schemes delivered by housing associations over the current Right to

Buy and Right to Acquire schemes is that funds are re-invested in delivering new affordable homes.

12. We support the **provisions of the Bill in relation to the restriction on exercising the Right to Buy and Right to Acquire (sections 2 to 5), the abolition of the right to buy and the rights to acquire (section 6), and the removal of the power for Welsh Ministers to make discount grants (section 7).** However, further clarity would be welcome on **the duty to provide tenants and prospective tenants with information (section 8)**.

13. In particular, the requirement for landlords to share information with a tenant signing a new tenancy after the day on which the section comes into force - section 8 (4) – could be clearer. In the first instance, the requirement to communicate information on the end of Right to Buy 'as soon as reasonably practicable' could be clearer, and certainty over how long this requirement will remain in place would be preferable. (i.e. Will landlords still have to communicate that the Right to Buy does not exist a number of years after the policy has ended, or is this a short term measure to deal with those who may not have received the information previously but are starting a new tenancy?) It is our view that it would be more appropriate for this requirement to apply only for a limited period of time.

14. Housing associations are committed to sharing information with qualifying tenants, as set out throughout section 8, and we note the Welsh Government's submission of its information document to the committee. We broadly welcome the contents of the information document, in particular the emphasis on legal and financial advice that should be sought by those seeking to exercise their Right to Buy in the interim. However, we believe there could be greater emphasis placed on signposting people to other ways they can buy a home. We would also urge Welsh Government to ensure that this information is produced in a number of formats that are accessible for all tenants.

15. We don't foresee any **barriers to the implementation of the Bill's provisions** as it is currently drafted.

16. We believe the only **unintended consequence** of the Bill as it is currently drafted is the potential for a spike in Right to Buy and Right to Acquire sales in the interim period between the Bill being enacted and the rights ceasing to exist. Steps to prevent this could include reducing the discount in the interim period, or ensuring that tenants are aware of the other low cost home ownership options available to them, including those offered by housing associations.

Contact details:

Aaron Hill, Public Affairs Manager
aaron-hill@chcymru.org.uk
02920 674800

## Our vision

Everyone in Wales should have a decent and affordable home: it is the foundation for the health and well-being of people and communities.

## Mission

Shelter Cymru's mission is to improve people's lives through our advice and support services and through training, education and information work. Through our policy, research, campaigning and lobbying, we will help overcome the barriers that stand in the way of people in Wales having a decent affordable home.

## Values

- Be independent and not compromised in any aspect of our work with people in housing need.
- Work as equals with people in housing need, respect their needs, and help them to take control of their lives.
- Constructively challenge to ensure people are properly assisted and to improve good practice.

## Our response

Shelter Cymru welcomes the opportunity to provide a written response to this inquiry. The Right to Buy policy has been a key contributor to the housing crisis that Wales is currently facing. The impact of this policy, and a lack of investment in affordable housing over the last three decades, have resulted in social housing becoming a scarce and limited feature of our housing options for Welsh households. We have been calling for its abolition for many years: in 2008, when the Welsh Government was consulting on the proposed measure to suspend the Right to Buy in areas of housing pressure, we called on the Government to secure the powers to end the Right to Buy altogether.

We welcome Welsh Government's understanding and recognition of the crucially important role that the social sector plays in accommodating some of the most vulnerable in our society. Research shows that affordable housing is a key tool to tackling poverty across Wales[1]. With Wales having a higher proportion of households on relatively low incomes,

[1] Tunstall et al. 2013. The links between housing and poverty. JRF

affordable housing can often be a vital element that enables people to live above the breadline[2]. To this end, the importance of social housing cannot be underplayed and any efforts to protect Wales' stock will be fully embraced by Shelter Cymru.

While we recognise the positive aspects of Right to Buy such as its contribution to mixed tenure and income communities, enabling households to access home ownership and remain in their neighbourhoods, it is difficult to envisage the continued selling of affordable houses at discounted prices particularly at a time of high housing need. There are other models in place which support people to transition into home ownership from social housing such as stair-casing and shared equity schemes which are more efficient than the Right to Buy.

Studies do show that homeownership is an aspiration for the majority of households[3] but research exploring homeownership among tenants of social housing suggests that is less likely to be a reality for the majority, with only 7% of all housing association tenants wanting to and being able to purchase their own home through Right to Buy[4].

The security and affordability of social housing means that it continues to be preferred to privately rented housing for the majority of households in Wales. This suggests that only a minority of tenants will lose their opportunity to become homeowners, while the majority will continue to benefit from affordable and secure housing.

While the impact of the abolition won't be instant it will be sustained over the long term, supporting efforts to address the need for affordable housing options for future generations. This will help to ensure the prosperity and resilience of Welsh households, and to support the effective and full implementation of the Welsh homelessness legislation, which depends upon access to affordable and secure housing solutions for people in crisis. The continued selling of our social housing while Welsh Government is aiming to produce 20,000 affordable homes is completely contradictory.

Protecting and investing in social housing may also have a positive wider impact in reducing and preventing homelessness; research has found that homeless people in Wales are more likely to have multiple and complex needs[5] which are likely to be better met by social landlords. Studies have shown that people with support needs are more likely to sustain a social housing tenancy than a private rented one[6]. Without adequate numbers of homes in the social housing sector more vulnerable people will have to rely on private rented accommodation which may not meet their needs and which may lead to repeat episodes of homelessness.

---

[2] Wilcox et al. 2015. UK Housing Review: Briefing Paper. CIH
[3]Citizen's Advice Cymru. 2015. The Future of the Right to Buy and Right to Acquire: Response form.
[4] Pattinson et al. 2016. Tenant Perceptions of the Right to Buy Extension: Evidence from the Big Tenant Survey. CRESR & Sheffield Hallam University
[5]Mackie, P & Thomas, I. 2014. Nations Apart? Experiences of Single Homeless People across Great Britain. Cardiff University: Cardiff.
[6] Warnes et al. 2013. Factors that Influence the Outcomes of Single Homeless People's Rehousing. Housing Studies 28 (5), pp. 782-798.

There is also a clear financial argument for abolishing the Right to Buy, with landlords reporting the policy as having a negative impact on their ability to build new homes[7]. In addition to this many houses sold through to Right to Buy emerge years later as private rented properties for people who need social homes but are left with little option but to rent higher cost, less secure houses. Ironically many of these tenants will rely on housing benefit to assist with the cost of these rents: this system is neither efficient, economical nor sustainable.

## Tenants' interests

Although there are clear overarching reasons why ending the Right to Buy is in the interests of the Welsh population as a whole, it is also the case that the Right to Buy remains a popular policy among many social tenants[8]. Alternative proposals by tenants have included subsidising deposits, to a value equivalent to the current discount, in order to assist tenants to purchase homes in the private market.

The problem with any intervention which helps people to buy housing is that it inevitably creates a housing bubble, keeping prices artificially high. This is in nobody's interests. Instead we should be concentrating public subsidy on increasing supply rather than demand.

However, we also need to engage with social tenants and listen to them in order to understand their aspirations and needs. It's crucial to understand why home ownership is still an attractive option for tenants.

Shelter and Shelter Cymru, in partnership with British Gas, have developed a new, person-centred measure of housing quality: the Living Home Standard[9], based on a similar methodology as the Living Wage. The Standard describes what people believe is an acceptable minimum standard for homes in the 21st century in order to support people's wellbeing.

Earlier this year we carried out a Wales-wide survey to understand how many homes in Wales are currently failing the Standard. While across Wales 44% of people live in homes that fail the Standard, among social tenants the figure was considerably higher at 64%. By contrast, among owner-occupiers only 36% live in homes that fail the Standard.

The areas in which social homes were more likely to fail than the Wales average were affordability (42%); conditions (29%); neighbourhood (12%); and stability (11%).

Addressing these shortcomings via continued investment in improving conditions, community safety, affordability and rights is crucial.

We would also argue that the Welsh Government must ensure that tenants are adequately informed about their changing rights in respect of the Right to Buy. Among other reasons

---

[7] Inside Housing. 2015. #Wrong to Buy. 17th April 2015, pp. 2-3
[8] http://www.welshtenants.org.uk/2015/05/to-buy-or-not-to-buy-this-is-the-question/
[9] Not yet published – publication date July 2017

this is important to help tenants be aware of the risk of being targeted by unscrupulous lenders who may be active during the 12-month notice period. While many social landlords in Wales are effective at tenant communication, others have not always performed well in this area and a consistent Wales-wide approach, led by Welsh Government guidance, would be desirable.

Finally, we suggest that it may be fair to give all tenants across Wales the same chance to purchase their home during the 12-month period. During the Welsh Government consultation exercise, eight out of 12 tenants who lived in local authority areas where the Right to Buy had been suspended said they felt the opportunity should be given to all on an equal basis. Although these tenants would have had a notice period already, some may not have understood the process and may have been under the impression that suspended rights would be reinstated at a later date.

## Conclusion

We support the Welsh Government's aim to abolish the Right to Buy for three reasons:

- Our social housing is an invaluable resource that cannot easily or cheaply be replaced
- Abolishing the policy will only negatively impact a small proportion of tenants while protecting the majority and future generations
- It will support the wider aims of the Welsh Government to tackle homelessness and provide greater equality and prosperity in Wales.

By Rebecca Jackson, Policy Officer and Jennie Bibbings, Campaigns Manager

rjackson@sheltercymru.org.uk

jennieb@sheltercymru.org.uk

02920 556120

Eitem 4.1

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-17 Papur 3/ Paper 3

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

24 Mawrth 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Yn dilyn y ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn ynghylch adroddiad y Pwyllgor, rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion a oedd heb eu hateb.

Hefyd, mae'n gyfle i ofyn sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Ddeddf Cam-drin a Thrais Domestig y cyhoeddodd Prif Weinidog y DU ar 17 Chwefror 2017. Pa ran, os o gwbl, fydd gan Lywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd hon?

Yn ystod y ddadl, dywedoch eich bod yn teimlo'n rhwystredig ynghylch pa mor gyflym y mae Deddf 2015 yn cael ei rhoi ar waith a'ch bod wedi gwneud newidiadau 'sylweddol' i'ch tîm. A allwch amlinellu pa effaith y caiff y newidiadau hyn o ran rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith?

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i chynllun cyflawni arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol, bennu dyddiadau cyflawni penodol, unigol ar gyfer:**

– **pob set o ganllawiau statudol sydd heb eu rhoi ar waith;**

– **y canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â pharatoi strategaethau lleol;**

– **y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y mewnosodir gan adran 9 o'r Ddeddf) yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn adrodd ar sut mae eu sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf;**

– **cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr.**

Roedd yr ymateb ysgrifenedig yn aneglur ar rai o'r pwyntiau hyn, yn enwedig o ran y canllawiau statudol. Wrth ymateb i'r ddadl, rhoesoch eglurhad defnyddiol y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cael canllawiau ym mis Gorffennaf i'w helpu gyda'u strategaethau lleol. Dywedoch hefyd y bydd ymgynghoriad ar y canllawiau comisiynu statudol ym mis Gorffennaf, ond nid oes eglurder o hyd ynghylch a oes unrhyw ganllawiau statudol pellach sydd heb eu gosod. A fyddech cystal â darparu rhestr o'r canllawiau statudol sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, ynghyd â manylion ynghylch pryd y'u cyhoeddwyd neu ba bryd y byddant yn cael eu cyhoeddi?

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pa bryd y bydd Bwrdd Cynghori ynglŷn â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cwblhau ei waith ar greu model ariannu cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol (a phryd y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu). Dylai hefyd sicrhau bod cyllid digonol ar gael i'r sector ymdopi er mwyn ag unrhyw gynnydd yn y galw yn sgil y Ddeddf.**

Yn yr ymateb ysgrifenedig, dywedoch fod cyllideb 2016-17 yn cynnwys cynnydd o £400,000 yn elfen refeniw y Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig. Yn ystod y ddadl, nid oedd yn glir a fydd y cynnydd hwn yn bodloni'r cynnydd tebygol yn y galw o ystyried na fydd newid yn y cyllid ar gyfer 2017-18. A allech egluro a fydd y cynnydd hwn yn y gyllideb yn bodloni'r cynnydd tebygol yn y galw yn sgil y Ddeddf?

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder:**

- **i egluro statws cyfreithiol y cynllun cyflawni sydd ar y gweill, a gorau oll os gellir cyhoeddi hwnnw ar ffurf canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod modd ei orfodi;**
- **i amlinellu pa bryd y cyhoeddir y cynllun cyflawni, a sut yr ymgynghorir yn ei gylch; a**
- **sicrhau bod y deg argymhelliad gan oroeswyr sydd yn yr adroddiad 'Are you listening, am I being heard?' yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses o ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.**

Yn eich ymateb ysgrifenedig, rydych yn nodi y bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a oedd i fod i gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2017, yn trafod statws cyfreithiol y cynllun cyflawni. Mae'n aneglur o hyd ynghylch beth fydd statws cyfreithiol y canllawiau statudol, pryd y cânt eu cyhoeddi, neu gan nad oes eglurhad, pryd y bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud. A allech egluro a fydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi fel canllawiau statudol a pha bryd y mae'n debygol o gael ei gyhoeddi?

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys addysg perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd o dan y Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Llesiant', a sicrhau y caiff hyn ei ddarparu ym mhob ysgol.**

Fel y dywedoch yn ystod y ddadl, un o negeseuon cryf yr adroddiad a'r ddadl oedd pwysigrwydd addysg ar gyfer atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan eich cyd-aelod, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ynghylch sefydlu Panel Arbenigwyr ar Gydberthnasau Iach dan gadeiryddiaeth yr Athro Emma Renold. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd addysg ar berthnasoedd iach yn orfodol ym mhob ysgol yn Lloegr. Byddwn yn parhau i fod â diddordeb brwd yn y mater hwn, a byddai'n ddefnyddiol gwybod gennych chi neu'ch cyd-aelod o'r Cabinet pryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch a fydd addysg ar berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm.

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru brysuro i baratoi'r rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth gan**


**awdurdodau lleol am sut y maent yn rhoi eu swyddogaethau ar waith i hyrwyddo diben y Ddeddf. Dylai ymrwymo hefyd i fynnu bod awdurdodau lleol yn dechrau adrodd erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18.**

Nid oedd yn glir o'r ymateb ysgrifenedig a'r ddadl a fyddai'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn. A fyddech cystal ag egluro hyn?

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti rôl y Cynghorydd Cenedlaethol, gan ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol iddi ar gyfer gwaith ymchwil ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol.**

Yn ystod y ddadl, gofynnwyd am eglurhad ynghylch y materion hyn a'r cytundeb i gadw llygad ar gapasiti. A oes modd i chi roi diweddariad am hyn?

Yn gywir



John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA (L) CS -0278-17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Ebrill 2017

Annwyl John

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Mawrth yn dilyn y ddadl ddiweddar yn y cyfarfod llawn ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a bydd yn gwneud hynny yn ystod y gwaith o ddatblygu Bil Trais a Cham-drin Domestig ar gyfer y DU.

Yn unol â'ch cais, byddaf yn ymateb i bob un o'r pwyntiau penodol a godwyd isod:

- Yn ystod y ddadl dywedoch eich bod yn teimlo'n rhwystredig ynghylch pa mor gyflym y mae Deddf 2015 yn cael ei rhoi ar waith a'ch bod wedi gwneud newidiadau 'sylweddol' i'ch tîm. A allwch amlinellu pa effaith a gaiff y newidiadau hyn o ran rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith?

  *Mae secondai wedi cael ei gyflwyno i'r Adran i gynorthwyo'r Tîm a'r Cynghorydd Cenedlaethol. Yn ychwanegol at y secondai newydd, mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Gyllid Cynaliadwy a Fframwaith Cyflawni wedi cael ei sefydlu a bydd y ddau yn helpu i gyflymu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith.*

- Roedd yr ymateb ysgrifenedig yn aneglur ar rai o'r pwyntiau hyn, yn enwedig o ran y canllawiau statudol. Wrth ymateb i'r ddadl, rhoesoch eglurhad defnyddiol y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cael canllawiau ym mis Gorffennaf i'w helpu gyda'u strategaethau lleol. Dywedoch hefyd y bydd ymgynghoriad ar y canllawiau comisiynu statudol ym mis Gorffennaf, ond nid oes eglurder o hyd ynghylch a oes unrhyw ganllawiau statudol pellach sydd heb eu gosod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- A fyddech cystal â darparu rhestr o'r canllawiau statudol sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, ynghyd â manylion ynghylch pryd y'u cyhoeddwyd neu ba bryd y byddant yn cael eu cyhoeddi?

  *Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn cynnwys pŵer yn ôl disgresiwn i gyhoeddi canllawiau. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi canllawiau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau lle mae hynny'n fanteisiol i gyflawni amcanion y Ddeddf. Bydd y fframwaith cyflawni yn rhestru'r holl ganllawiau yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi i helpu i gyflawni amcanion y Ddeddf.*

  *<u>Canllawiau ar Gydweithredu Amlasiantaeth</u>*
  *Rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fodel Cyllid Cynaliadwy a bydd yn adrodd imi yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ym mis Tachwedd 2017.*

  *<u>Gofyn a Gweithredu</u>*
  *Bydd y cynllun ar gyfer cyflwyno Gofyn a Gweithredu yn cael ei ddatblygu o fis Gorffennaf 2017 ymlaen mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a Cymorth i Ferched Cymru.*

  *<u>Gwasanaethau Comisiynu</u>*
  *Mae comisiynu gwasanaethau wedi bod yn rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fodel Cyllido Cynaliadwy. Caiff* set ddrafft o ganllawiau comisiynu statudol *eu cyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ym mis Tachwedd 2017.*

  *<u>Strategaethau Lleol</u>*
  *Bydd y strategaeth genedlaethol yn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth baratoi eu strategaethau lleol. Fodd bynnag, y bwriad o hyd yw cyhoeddi canllawiau yn ystod Haf 2017 i gynorthwyo ymhellach gyda'r gwaith o baratoi strategaethau lleol.*

- Yn yr ymateb ysgrifenedig, dywedoch fod cyllideb 2016-17 yn cynnwys cynnydd o £400,000 yn elfen refeniw y Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig. Yn ystod y ddadl, nid oedd yn glir a fydd y cynnydd hwn yn bodloni’r cynnydd tebygol yn y galw o ystyried na fydd newid yn y cyllid ar gyfer 2017-18. A allech egluro a fydd y cynnydd hwn yn y gyllideb yn bodloni’r cynnydd tebygol yn y galw yn sgil y Ddeddf?

  *Mae'r gyllideb £4.5 miliwn ar gyfer 2017-18 yn cynnwys y cynnydd o £400,000. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fodel Cyllido Cynaliadwy yn adrodd imi yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ym mis Mai 2017.*

- Yn eich ymateb ysgrifenedig, rydych yn nodi y bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a oedd i fod i gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2017, yn trafod statws cyfreithiol y cynllun cyflawni. Mae'n aneglur o hyd ynghylch beth fydd statws cyfreithiol y canllawiau statudol, pryd y cânt eu cyhoeddi, neu gan nad oes eglurhad, pryd y bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud. A allech egluro a fydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi fel canllawiau statudol a pha bryd y mae'n debygol o gael ei gyhoeddi?

  *Mae union gynnwys y cynllun yn dal i gael ei ddatblygu, a dim ond pan gaiff ei gwblhau y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y statws cyfreithiol. Mae'r cynnydd yn parhau gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fframwaith Cyflawni sy'n cynnal gweithdy ddiwedd mis Ebrill 2017 a byddaf yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ym mis Mai 2017.*

- Fel y dywedoch yn ystod y ddadl, un o negeseuon cryf yr adroddiad a'r ddadl oedd pwysigrwydd addysg ar gyfer atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf.  Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan eich cyd-aelod, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ynghylch sefydlu Panel Arbenigwyr ar Gydberthnasau Iach dan gadeiryddiaeth yr Athro Emma Renold.  Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd addysg ar berthnasoedd iach yn orfodol ym mhob ysgol yn Lloegr.  Byddwn yn parhau i fod â diddordeb brwd yn y mater hwn, a byddai'n ddefnyddiol gwybod gennych chi neu'ch cyd-aelod o'r Cabinet pryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch a fydd addysg ar berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm.

  *Mae swyddogion addysg yn dal i ddatblygu'r diwygiadau i'r cwricwlwm. Dechreuodd y gwaith ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn gynharach eleni.  Bydd y manylion yn cael eu datblygu ymhellach yn 2017 gyda'r nod o sicrhau bod y cwricwlwm newydd ar gael yn 2018 ac yn cael ei addysgu mewn ysgolion erbyn 2021.*

- Argymhelliad 11: Nid oedd yn glir o'r ymateb ysgrifenedig a'r ddadl a fyddai'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn.  A fyddech cystal ag egluro hyn?

  *Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â datblygu rheoliadau neu ganllawiau statudol ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried adroddiad Estyn ar yr adolygiad thematig o addysg perthnasoedd iach a'r argymhellion terfynol gan y Panel Arbenigol ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Bydd hyn yn llywio pa gamau pellach a gaiff eu cymryd yn hyn o beth.*

- Argymhelliad 14: Yn ystod y ddadl, gofynnwyd am eglurhad ynghylch y materion hyn a'r cytundeb i gadw llygad ar gapasiti.  A oes modd i chi roi diweddariad am hyn?

  *Mae rôl y Cynghorydd Cenedlaethol yn parhau i gael ei hadolygu.*

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Eitem 4.2

**Carl Sargeant AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-17 Papur 4/ Paper 4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: MA (P) CS 0634 17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chydraddoldeb
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Mawrth 2017

Annwyl John

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor ar 16 Chwefror cynigiais ddarparu nodyn ysgrifenedig yn ymateb i rai o gwestiynau'r Pwyllgor. Hyderaf y bydd nodyn isod a'r tri Atodiad sydd ynghlwm yn egluro'r materion penodol dan sylw.

**1) Nodyn am y data a ddefnyddir i werthuso llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf ac i lywio'r cyfnod pontio a'r ymagwedd newydd, gan gynnwys y dangosyddion a ddefnyddir ar hyn o bryd a'r dangosyddion ar gyfer y dyfodol.**

Ers ei ail-lansio fel rhaglen trechu tlodi yn 2012, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei monitro drwy ddefnyddio fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). Mae'r fframwaith yn cynnwys tri nod cyffredinol er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf di-fraint yng Nghymru o ran: ffyniant/cyflogaeth, iechyd, a dysgu/sgiliau. Mae fframwaith canlyniadau presennol Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys 22 o ddangosyddion poblogaeth a 101 o ddulliau mesur perfformiad. Bydd y dangosyddion poblogaeth yn cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ar sail amrywiaeth o ffynonellau data ar lefel genedlaethol (e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Iechyd Cyhoeddus Cymru). Mae'r Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi cyflwyno adroddiadau chwarterol am ddata mesur perfformiad.

Wrth asesu effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf o ran mynd i'r afael â thlodi, defnyddiwyd nifer o ffynonellau tystiolaeth (gweler atodiad 1) gan gynnwys:

- adolygiad o werthusiadau o raglen Cymunedau yn Gyntaf (yn fwyaf diweddar 'Gwerthuso Proses' Ipsos Mori/Wavehill (2015));
- dadansoddi gwybodaeth rheoli perfformiad data a gedwir gan Lywodraeth Cymru; a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- dadansoddi data am dlodi (e.e. data MALLC, cyflogaeth ac incwm).

Er bod y data'n dangos bod Cymunedau yn Gyntaf wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth wella canlyniadau ar lefel yr unigolyn (e.e. niferoedd "a gafodd gymorth i gael gwaith"), ni lwyddodd gymaint i sicrhau newid ar lefel genedlaethol neu ar lefel ardal neu o leiaf ni welwyd tystiolaeth o'r llwyddiant hwnnw. Fel yr amlygwyd gan Old Bell 3 yn eu gwerthusiad yn 2011, mae'n anodd priodoli canlyniadau i unrhyw un rhaglen yn benodol.

Gwerthuso prosiectau trosiannol Cymunedau yn Gyntaf 2017/18

Gwaith y sawl sy'n cael cyllid fydd monitro perfformiad ar sail canlyniadau a bennir yn lleol. Mae yna ddisgwyliad clir, wrth ymateb i'r nodau llesiant, y dylai'r sawl sy'n cael cyllid gyflwyno adroddiad am ganlyniadau ar sail Dangosyddion Cenedlaethol Cymru.

Data i Lywio'r Dull Newydd

Llywiwyd dull newydd y byddwn yn ei ddefnyddio gyda golwg ar gymunedau cydnerth drwy gynnal ymarfer ymgysylltu eang â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Lansiwyd arolwg ar-lein, "Trafod Cymunedau" ar 24 Hydref 2016. Cafwyd mwy na 2,300 o ymatebion ar-lein. Cyflwynwyd 863 ymateb arall i'r broses ymgysylltu drwy ddulliau heblaw'r arolwg ar-lein (e.e. llythyrau a negeseuon e-bost).
- Cynhaliodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y grwpiau ffocws ar ein rhan gyda staff Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, defnyddwyr gwasanaethau a phobl â nodweddion gwarchodedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd crwn gyda sefydliadau'r Trydydd Sector.
- Cynhaliwyd dau grŵp ffocws hefyd gydag aelodau o'r cyhoedd i archwilio ac i gasglu barn am sut orau y gallwn gefnogi cymunedau cydnerth.

Cynigiwyd y cyfle i bob awdurdod lleol a phob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda 15 awdurdod lleol a 7 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**2) Y ffigurau bras ar gyfer sut y dosberthir cronfa etifeddol Cymunedau yn Gyntaf rhwng awdurdodau lleol ac egluro'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd i gyrraedd y ffigurau hyn**

Yn ystod yr ymarfer ymgysylltu diweddar soniodd rhanddeiliaid am yr effaith y gallai dirwyn prosiectau Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol ei chael. Yn ogystal â mynd ati i newid y trefniadau fesul cam, penderfynwyd darparu cyllid i helpu i adeiladu gwaddol cryf yn sgil Cymunedau yn gyntaf. Bydd y cyllid etifeddol yn golygu bod modd i Awdurdodau Lleol gadw rhai o'r prosiectau Cymunedau yn Gyntaf gorau a'r rhai sydd wedi bod fwyaf effeithiol.

Bydd y Gronfa Etifeddol, gwerth £6m y flwyddyn ar ffurf grant penodol a rennir ar draws 9 ardal yr awdurdodau lleol hynny lle mae ôl-troed Cymunedau yn Gyntaf i'w weld yn awr. Ar gyfer 2018/19 a 2019/20, rhennir y cyllid mewn ffordd sy'n gymesur â chyllidebau presennol Cymunedau yn gyntaf. Yn Atodiad 2, gwelir cyllid Cymunedau yn Gyntaf, fesul Corff Cyflawni Arweiniol, ar gyfer blwyddyn bontio 2017-18 a swm dangosol y Cyllid Etifeddol ar gyfer 2018-19 a 2019-20. Ar gyfer 2020-21, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried treiglo'r gronfa hon i'r grant cynnal refeniw.

### 3) Strwythurau adrodd y dangosyddion statudol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Gosodwyd y Dangosyddion Cenedlaethol i fesur cynnydd ar sail saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016. Bydd y 46 dangosydd yn galluogi Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw ddinesydd yng Nghymru i weld pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar lefel Cymru o ran cyflawni'r saith nod llesiant.

Adroddir am y cynnydd ar sail y saith nod llesiant drwy'r dangosyddion cenedlaethol mewn Adroddiad Llesiant Blynyddol ar gyfer Cymru a bydd hwnnw'n cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl pob blwyddyn ariannol. Cyhoeddir Adroddiad Llesiant Blynyddol Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf yn haf 2017.

### 4) Perfformiad Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi o'i chymharu â gwledydd eraill – yr Alban yn benodol

Adeg datganoli, roedd cyfrannau tebyg o bobl mewn tlodi incwm cymharol yn yr Alban ac yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ystod y degawd diwethaf mae'r bwlch rhwng y ddwy wlad wedi lledu a'r gwahaniaeth wedi aros yn 5 pwynt canran er 2009. Ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, yng Nghymru mae'r gyfran uchaf o bobl mewn tlodi incwm cymharol ac yn yr Alban y mae'r gyfran isaf (tabl yn Atodiad 3).

A siarad yn gyffredinol, bydd cymwysterau uwch yn denu cyflogau uwch. Mae'r "cynnydd" mewn enillion sy'n gysylltiedig â chymwysterau uwch yn gymharol debyg ni waeth ymhle y bydd unigolyn yn byw, ai yng Nghymru ynteu mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Hefyd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng cyflogaeth a lefelau cymwysterau.

Mae proffil cymwysterau oedolion o oedran gweithio yn yr Alban yn gryfach na phroffil Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae'r data diweddaraf o 2015 yn dangos bod gan gyfran uwch o bobl o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau is na lefel 2 (14 o'i gymharu ag 11 y cant yn yr Alban), a bod gan gyfran is gymwysterau lefel 4 neu uwch (lefel AU) (36 o'i gymharu â 46 y cant yn yr Alban)[1]. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod gan yr Alban broffil sgiliau gwell nag sydd gan Gymru. Mae hyn wedi cyfrannu at fwy o weithgarwch economaidd a llai o waith sy'n talu'n wael.

Mae'r data am bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant, yn dangos bod cyfradd y bobl ifanc 19-24 yn y grŵp hwn yn yr Alban yn is na'r gyfradd yng Nghymru.

Mae ffactorau eraill hefyd yn debygol o ddylanwadu ar lefelau tlodi ar hyn o bryd. Rydym yn gwybod bod gweithio'n amddiffynfa gref rhag byw ar aelwyd incwm isel. Mae canran yr aelwydydd di-waith yn yr Alban wedi tueddu i fod yn is na'r gyfran yng Nghymru er 1996 Mae perygl arbennig i'r rhain fyw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae hyn wedi newid yn y cyfnod diweddaraf. Yn 2015 ac yn 2016 roedd canran yr aelwydydd di-waith fymryn yn is yng Nghymru na'r ganran yn yr Alban (tabl yn atodiad 3)

**Carl Sargeant AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Adolygiadau a Gwerthusiadau o raglen Cymunedau yn Gyntaf**

**2003**
Adolygiad o raglen Cymunedau yn Gyntaf a gynhaliwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**2006**
Cyhoeddodd Cambridge Policy Consultants adroddiad terfynol ar werthusiad interim Cymunedau yn Gyntaf

Cambridge Policy Consultants, SOLAR, Arwel Jones ac Ati ac IPSOS MORI (2006). *Gwerthusiad interim Cymunedau yn Gyntaf: Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/060920-communities-first-interim-evaluation-conclusion-recommendations-cy.pdf

**2008**
Gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Wavehill Consulting. (2008). *Gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/080201-communities-first-trust-fund-cy.pdf

**2009**
Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Swyddfa Archwilio Cymru. (2009). *Cymunedau yn Gyntaf.* Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru. https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20090805103031/http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Communities_First_cym.pdf

**2010**
Adolygiad annibynnol o raglen Cymunedau yn Gyntaf gan Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2010). *Regenerating Communities First Neighbourhoods in Wales.* York: Sefydliad Joseph Rowntree. https://www.jrf.org.uk/file/40608/download?token=4AD-t4Zs&filetype=full-report

Asesiad gan yr Athro Adamson (Prifysgol Morgannwg) o effaith polisïau adfywio sy'n seiliedig ar ardal ar brofiad byw mewn tlodi yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru yn dilyn datganoli ym 1997 sy'n cynnwys cyfeiriadau at raglen Cymunedau yn Gyntaf.

Adamson, D. (2010). *The impact of devolution: Area-based regeneration policies in the UK.* York: Joseph Rowntree.

http://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/impact-of-devolution-area-regeneration.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. (2010). *Cymunedau yn Gyntaf.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7923%20-%20Public%20Accounts%20Committee%20Report%20on%20Communities%20First-22022010-168311/cr-ld7923-Cymraeg.pdf.

**2011**
Gwerthusiadau o brosesau a Chanlyniadau gan Amion Consulting ac Old Bell 3.
Amion Consulting ac Old Bell 3. (2011). *Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf (adroddiad llawn).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/110913-evaluation-communities-first-cy.pdf

**2012**
Cymunedau yn Gyntaf: Adroddiad Llinell Sylfaen 2012, Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru. (2012). *Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2012.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

**2014**
Ystadegau llinell sylfaen diwygiedig gan Lywodraeth Cymru.
Llywodraeth Cymru. (2014). *Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2012 (Diwygiedig).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru http://gov.wales/docs/statistics/2015/151117-communities-first-2012-baseline-revised-cy.pdf

**2015**
Gwerthusiad o'r broses gan Ipsos MORI a Wavehill Consulting
Ipsos MORI a Wavehill Consulting. (2015). *Cymunedau yn Gyntaf: Gwerthusiad o'r Broses.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

**2016.**
Gwerthusiad o flwyddyn beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gan Amgueddfa Cymru.
Amgueddfa Cymru. (2016). *Gwerthusiad o flwyddyn beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160303-pioneer-area-programme-pilot-year-cy.pdf


Atodiad 2

**Dyraniadau Cymunedau yn Gyntaf, 2017-18 a Dyraniadau Dangosol Cronfa Waddol 2018-19 a 2019-2020**

| Ardal Awdurdod Lleol | 2017-18 | Dyraniadau Dangosol Cronfa Waddol 2018-19 a 2019-20 |
|---|---|---|
| Ynys Môn | £463,540 | £125,015 |
| Blaenau Gwent | £1,722,173 | £464,465 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,216,822 | £328,173 |
| Caerffili | £2,031,411 | £547,867 |
| Caerdydd | £2,088,866 | £563,361 |
| Sir Gaerfyrddin | £406,005 | £109,498 |
| Conwy | £406,267 | £109,569 |
| Sir Ddinbych | £466,214 | £125,737 |
| Sir y Fflint | £473,421 | £127,680 |
| Gwynedd | £403,673 | £108,869 |
| Merthyr Tudful | £1,321,975 | £356,534 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,579,220 | £425,911 |
| Dinas Casnewydd | £1,674,071 | £451,492 |
| Sir Benfro | £412,054 | £111,130 |
| Rhondda Cynon Taf | £3,395,018 | £915,627 |
| Abertawe | £1,991,368 | £537,067 |
| Torfaen | £911,716 | £245,887 |
| Bro Morgannwg | £406,645 | £109,671 |
| Wrecsam | £876,713 | £236,447 |
| **Cyfanswm Dyfarniadau'r Clystyrau** | **£22,247,172** | **£6,000,000** |
| | | |

## Poverty comparison tables

### Poverty – comparison between Wales and Scotland




Source: Households Below Average Income, DWP

**Percentage of workless households**

| | Wales | Scotland |
|---|---|---|
| *Per cent* | | |
| April-June 1996 | 24.7 | 23.5 |
| April-June 1997 | 23.4 | 23.3 |
| April-June 1998 | 25.2 | 23.1 |
| April-June 1999 | 24.2 | 22.7 |
| April-June 2000 | 23.8 | 22.4 |
| April-June 2001 | 25.1 | 21.3 |
| April-June 2002 | 24.4 | 21.7 |
| April-June 2003 | 21.4 | 19.7 |
| April-June 2004 | 20.9 | 20.4 |
| April-June 2005 | 21.5 | 20.2 |
| April-June 2006 | 20.4 | 19.6 |
| April-June 2007 | 20.8 | 17.5 |
| April-June 2008 | 19.8 | 18.4 |
| April-June 2009 | 22.0 | 20.5 |
| April-June 2010 | 22.9 | 22.6 |
| April-June 2011 | 19.8 | 19.9 |
| April-June 2012 | 21.7 | 20.6 |
| April-June 2013 | 20.3 | 19.5 |
| April-June 2014 | 18.8 | 17.5 |
| April-June 2015 | 17.2 | 17.9 |
| April-June 2016 | 15.9 | 17.2 |

Tablau cymharu tlodi

Tlodi – cymharu Cymru a'r Alban

| Canran y bobl mewn tlodi cymharol o ran incwm (ar ôl costau tai) yng Nghymru a'r Alban o 1998 i 2015 |
|---|
| Cymru |
| Yr Alban |
| **please change 'to' between the numbers to 'i'**<br>**eg – 98-99 i 00-01** |

Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Canran yr aelwydydd heb waith**

| | **Cymru** | **Yr Alban** |
|---|---|---|
| *Y cant* | | |
| Ebrill-Mehefin 1996 | 24.7 | 23.5 |
| Ebrill-Mehefin 1997 | 23.4 | 23.3 |
| Ebrill-Mehefin 1998 | 25.2 | 23.1 |
| Ebrill-Mehefin 1999 | 24.2 | 22.7 |
| Ebrill-Mehefin 2000 | 23.8 | 22.4 |
| Ebrill-Mehefin 2001 | 25.1 | 21.3 |
| Ebrill-Mehefin 2002 | 24.4 | 21.7 |
| Ebrill-Mehefin 2003 | 21.4 | 19.7 |
| Ebrill-Mehefin 2004 | 20.9 | 20.4 |
| Ebrill-Mehefin 2005 | 21.5 | 20.2 |
| Ebrill-Mehefin 2006 | 20.4 | 19.6 |
| Ebrill-Mehefin 2007 | 20.8 | 17.5 |
| Ebrill-Mehefin 2008 | 19.8 | 18.4 |
| Ebrill-Mehefin 2009 | 22.0 | 20.5 |
| Ebrill-Mehefin 2010 | 22.9 | 22.6 |
| Ebrill-Mehefin 2011 | 19.8 | 19.9 |
| Ebrill-Mehefin 2012 | 21.7 | 20.6 |
| Ebrill-Mehefin 2013 | 20.3 | 19.5 |
| Ebrill-Mehefin 2014 | 18.8 | 17.5 |
| Ebrill-Mehefin 2015 | 17.2 | 17.9 |
| Ebrill-Mehefin 2016 | 15.9 | 17.2 |

**Carl Sargeant AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Ebrill 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth am drefniadau cyllido Cymunedau yn Gyntaf.

Mae fy swyddogion yn cysylltu'n gyson â Chyrff Cyflawni Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf, ac yn gweithio'n agos â hwy. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y Gogledd a'r De i drafod fersiwn ddrafft y Canllawiau Pontio a Strategaeth Cymunedau, a oedd yn cynnwys manylion y trefniadau cyllido o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Mae copi o'r canllawiau terfynol, sy'n adlewyrchu sylwadau'r Cyrff Cyflawni Arweiniol, wedi'u hatodi. Yn naturiol, bydd fy swyddogion yn parhau i gefnogi Cyrff Cyflawni Arweiniol drwy gydol y cyfnod pontio.

O ran cyllid Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2017-18, gallaf gadarnhau bod y Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi cael cynnig cyllid refeniw o 70% (yn seiliedig ar ddyraniad 2016-17) ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r cyllid yn cynnwys y cyllid 100% ar gyfer cyfnod Ebrill i Mehefin 2017, yn unol â'r gwarant gynharach o gyllid. Mae Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi cael hyblygrwydd i benderfynu sut i broffilio cyllid y flwyddyn i gefnogi eu blaenoriaethau lleol, ar sail y ddealltwriaeth glir na fydd cyllid Cymunedau yn Gyntaf ar gael ar ôl 31 Mawrth 2018. Mae pob Corff Cyflawni Arweiniol wedi cael cadarnhad ffurfiol o'u dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ac maent wrthi'n cyflwyno cynlluniau pontio amlinellol ar y sail hwn ar hyn o bryd.

Rwy'n deall bod y broses o gynllunio ar gyfer cyfnod pontio 2017-18 yn un ailadroddol, ac yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd angen i'r Cyrff Cyflawni Arweiniol wneud newidiadau i'w cynlluniau pontio yn ystod o flwyddyn, a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys yr etholiadau llywodraeth leol sydd ar y gorwel.

Yn gywir,

**Carl Sargeant AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-17 Papur 5/ Paper 5

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

10 Ebrill 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

**Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac Adnewyddiad**

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn 'Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac Adnewyddiad', mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn ystyried nifer o faterion ynghylch ei gynnwys. O ganlyniad, mae gennym nifer o arsylwadau a phryderon am rai elfennau o'r Papur Gwyn, sydd i'w gweld yn y memorandwm sydd ynghlwm.

Yn ystod ein gwaith, gwnaethom drafod nifer o feysydd fel y pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan edrych yn benodol ar y canlynol:

- Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm
- Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned 2015-16
- Diogelwch cymunedol yng Nghymru
- Consortia Addysg Rhanbarthol

Rwy'n gobeithio y bydd arsylwadau'r Pwyllgor o ddefnydd i chi wrth i chi ddadansoddi'r ymatebion i'r Papur Gwyn hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Ymateb i'r Papur Gwyn 'Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad' (10 Ebrill 2017)**

1. Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn 'Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad' (y Papur Gwyn), mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) wedi ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'i gynnwys. O ganlyniad, mae gennym nifer o sylwadau a phryderon am rai elfennau o'r Papur Gwyn a nodir yn y memorandwm hwn.

2. Nid yw'r Pwyllgor wedi ystyried pob un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn fanwl, gan fod hyn yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ond yn ystod ein gwaith rydym wedi ystyried nifer o feysydd fel pŵer cymhwysedd cyffredinol a chonsortia addysg rhanbarthol a fydd yn effeithio ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym wedi anfon copi o'r memorandwm hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

3. Wrth lunio'r ymateb hwn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried tystiolaeth a roddwyd i ni gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Estyn, y Consortia Addysg Rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Sylwadau'r Pwyllgor yn unig yw'r rhai a geir yn y ddogfen hon, ac rydym yn deall y bydd llawer o'r grwpiau hyn yn gwneud eu sylwadau eu hunain ar y Papur Gwyn.

*Y prif themâu*

4. Er bod pwerau neu strwythurau ffurfiol o fudd er mwyn hwyluso gweithio rhanbarthol, mae angen rhannu gwybodaeth ac arfer gorau yn well o hyd ar draws Cymru, a symud tuag at gydffinio’r ôl troed rhanbarthol.

5. Mae angen mynegi pwrpas a chyfeiriad clir ar y cychwyn i'r rheini sy'n gyfrifol am weithio'n rhanbarthol.

6. Mae angen ystyried sut y caiff effaith y penderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r Papur Gwyn eu mesur i werthuso effeithiolrwydd.

**Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm**

7. Trafododd y Pwyllgor adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) 'Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017. Rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor.

*Y pŵer cymhwysedd cyffredinol*

8. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod Deddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr, a gyflwynodd y pŵer cyffredinol cymhwysedd[1]:

> "... wedi annog awdurdodau i ddatblygu cyfryngau masnachol fel ffordd o gynhyrchu incwm, ond nid yw'r pŵer hwn yn bodoli yng Nghymru, ac mae hynny'n cyfyngu ar gyfleoedd."

9. Serch hynny, mae'r adroddiad yn nodi bod rhai cyfyngiadau ar y pŵer hwn o ganlyniad i rai eithriadau yn y Ddeddf, a chyfyngiadau ar yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud.

10. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, yn croesawu cyflwyno'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, ac rydym hefyd yn croesawu hyn yn fras er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau na rhwystrau rhag arloesi.

11. Fodd bynnag, rydym yn credu bod yn rhaid cyflwyno'r pŵer hwn ochr yn ochr â newid yn niwylliant awdurdodau lleol. Yn ei adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod pwerau'n bodoli eisoes, ond mai prin yw'r dystiolaeth o'r defnydd ohonynt. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hefyd yn nodi bod gan awdurdodau yng Nghymru bwerau eang i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwella neu'n hybu llesiant eu hardaloedd[2], ond nad yw'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n llawn.

*Cymorth ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiad*

12. Clywodd y Pwyllgor nifer o enghreifftiau arloesol o sut mae awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr yn manteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm, ond rydym yn pryderu nad oedd y tystion yn gallu rhoi enghreifftiau yng nghyfarfod y Pwyllgor.[3]

---

[1] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm, paragraff 1.13

[2] Llythyr Llywodraeth Cymru, 6 Rhagfyr 2016

[3] **Llythyr Graham Hinchey, Cyngor Dinas Caerdydd, Mawrth 2017**

13. Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr arfer gorau sy'n cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio yn cael ei rannu ymhlith pob awdurdod lleol. Mae lledaenu arfer gorau yn hanfodol i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd i gynhyrchu incwm.

14. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ei bod yn ymddangos bod CLlLC, mewn ymateb i gwestiynau ynghylch a oes modd gwneud mwy i rannu gwybodaeth a phrofiad, yn awgrymu bod y cyfleoedd yn brin yn sgil cael gwared ar y grant gwella llywodraeth leol.

15. Rydym yn credu bod yn rhaid gwneud mwy i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad er mwyn hwyluso rhanbartholi. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod CLlLC yn manteisio'n llawn ar bob cyfle i rannu arferion gorau rhwng awdurdodau lleol, a dylai Llywodraeth Cymru anfon neges glir bod llaesu dwylo yn y maes hwn yn annerbyniol.

---

Llythyr Llywodraeth Cymru, Chwefror 2017

**Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned 2015-16**

16. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bumed adroddiad blynyddol ar ganfyddiadau'r archwiliadau statudol o gynghorau cymuned yng Nghymru ym mis Ionawr 2017. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

> "Mae gormod o gynghorau cymuned yng Nghymru yn cael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi ac mae hyn yn arbennig o wir am y cynghorau llai o faint."[4]

17. Roedd y Pwyllgor yn pryderu o weld bod, ym mlwyddyn ariannol 2015-16, y rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol ar 30% o'r cyfrifon cynghorau cymuned (sef dros 200 o gynghorau unigol), ac mai dim ond 20% o gynghorau a gafodd farn ddiamod heb unrhyw faterion pellach i'w hystyried. Cafodd y 50% sy'n weddill farn ddiamod, ond tynnwyd materion eraill i'w sylw. Fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym yn credu ei bod yn annerbyniol bod cyfran mor uchel o gynghorau cymuned wedi cael barn amodol ar eu cyfrifon yn ystod 2015-16, ac yn disgwyl gweld rheolaeth well ar arian cyhoeddus.

18. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn i gomisiynu adolygiad cynhwysfawr o gynghorau cymuned, ac mae'n credu y dylid defnyddio'r canfyddiadau yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol i lywio'r adolygiad hwn. Byddem yn disgwyl gweld nifer o argymhellion yn codi o'r adolygiad hwn sy'n gofyn am welliannau sylweddol o ran rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned. Rydym hefyd yn disgwyl i hyfforddiant ymwybyddiaeth rheoli ariannol gael ei wneud yn orfodol i bob aelodau o gynghorau cymuned, oherwydd y dylai cyfrifoldeb am lunio'r cyfrifon hyn yn amserol ac yn gywir gael ei ysgwyddo ar y cyd.

19. Ar ben hynny, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r rhesymau mwyaf cyffredin dros roi barn archwilio amodol oedd methiant o ran:

- cadw at yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon;
- rhoi trefniadau ar waith i reoli risg; neu
- bennu cyllideb briodol.

20. O ystyried y rhesymau hyn, yn enwedig y methiant i wneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli risg, sydd wedi bod yn rheswm ailadroddus wrth roi

[4] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned 2015-16, Tudalen 15, Ionawr 2017

barn amodol yn y gorffennol ar gyfrifon cynghorau cymuned, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y cynnig yn y Papur Gwyn y byddai'r pŵer cyffredinol cymhwysedd yn cael ei roi i gynghorau cymuned.

21. Er ein bod yn deall yr egwyddor o gynnwys y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned yn y ddeddfwriaeth hon, mae'r diffyg cyfrifoldeb ariannol mewn nifer sylweddol o gynghorau cymuned yn awgrymu bod y gyfran helaeth o gynghorau cymuned yn bell o fod yn barod am y cyfrifoldeb. Rydym yn argymell, nes i'r adolygiad cynhwysfawr gael ei gynnal ac i’r canfyddiadau gael eu rhoi ar waith, na ddylai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol fod gael i gynghorau cymuned. Ar ben hynny, yn dilyn canlyniad yr adolygiad, ni ddylai ond fod ar gael i'r cynghorau hynny a all ddangos strategaeth glir ar gyfer ei ddefnyddio, gyda mesurau diogelwch priodol, ac yn destun gwaith adolygu rheolaidd.

**Diogelwch cymunedol yng Nghymru**

22. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru ym mis Hydref 2016 a oedd yn ymchwilio ynghylch a yw Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â throseddu a materion eraill ynghylch diogelwch y cyhoedd sy'n cael effaith negyddol ar lesiant pobl. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad hwn ym mis Rhagfyr 2016 ac ysgrifennodd at y pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gofyn am eu barn am yr adroddiad.

23. Er nad yw'r Papur Gwyn yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddiogelwch cymunedol, mae'r Pwyllgor yn credu ei fod yn dangos rhai o'r materion a all godi o feysydd trawsbynciol â chyfrifoldebau cymhleth a chyfrifoldebau wedi'u hollti yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, a allai fod yn berthnasol yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach.

24. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol nifer o bryderon yn ei adroddiad ynghylch atebolrwydd clir ac arweinyddiaeth aneglur, gwahaniaeth o ran cyfeiriad a blaenoriaethau strategol, aneglurder ymysg dinasyddion ynghylch rolau a chyfrifoldebau, ac adnoddau'n cael eu lledaenu'n eang a heb eu defnyddio'n effeithiol i wneud y mwyaf o'r effaith neu'r buddion i ddinasyddion. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn adleisio cryn dipyn o hyn.

25. Mae'r Pwyllgor yn deall bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad mwy sylfaenol o'r setliad datganoli a phwerau a dyletswyddau'r gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r ymatebion gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dangos na fydd creu ffiniau heb fynd i'r afael â rhai o'r pwerau a'r cyfrifoldebau sylfaenol ynddo'i hun yn arwain at welliannau nac yn arwain at ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn effeithiol o ran cost. Mewn gwirionedd, gall hyn wneud y sefyllfa'n llawer mwy cymhleth a gwneud y gwaith o ddarparu gwasanaethau'n llai effeithiol.

26. Yn dilyn cyhoeddi memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn rhoi'r diweddaraf am hynt y gwaith mewn ymateb i'r argymhellion yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2015 'Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol', cytunodd y Pwyllgor i edrych ar y materion yn codi o hyn, ac ystyried a oedd unrhyw wersi i'w dysgu ynghylch rhanbartholi.

27. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y pedwar consortiwm ac Estyn yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth. Yn ogystal â hyn, gwnaethom gynnal arolwg gyda gweithwyr addysgu proffesiynol a chawsom ohebiaeth ysgrifenedig gan NASUWT Cymru. Mae gan y Pwyllgor nifer o sylwadau yn deillio o'r sesiynau hyn yr ydym yn credu y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer rhanbartholi.

*Mandad clir*

28. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y bu diffyg eglurder o'r cychwyn ynghylch rôl y consortia. Er ein bod yn cydnabod y bu cynnydd da o ran datblygu rôl y consortia ers y memorandwm diwethaf gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn pryderu ynghylch y dystiolaeth a roddwyd bod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer y consortia wedi bod yn aneglur o'r cychwyn.

29. Roedd pob un o'r tystion yn dweud mai un o'r gwersi allweddol i'w dysgu oedd bod angen mwy o amser ar y cychwyn i amlinellu nodau a chyfeiriad i'r cyrff rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu, gan ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i fynd i'r afael â hyn a'i fod wedi effeithio ar y gallu i gyflawni.

30. Wrth drafod yr hyn yr oedd yn meddwl y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol, dywedodd Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, wrthym:

> "… getting the national model really clear at the beginning, before September 2012, in terms of responsibilities, budget, governance, success measures, capacity expectations."[5]

31. Cytunodd Simon Brown, cyfarwyddwr strategol Estyn, fod y model cenedlaethol wedi bod o gymorth o ran gwella, a hefyd:

---

[5] Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 115

> "… one of the issues with the national model when it first emerged in 2012 was it was a model that was developing quite quickly and some of that clarity wasn't there in the original model"[6]

32. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen gosod cyfeiriad cenedlaethol clir, ond mae'n credu y dylai'r system fod yn hyblyg, yn hytrach na bod yn rhy ragnodol, o ran sut i gyflwyno'r darlun cenedlaethol. Mae gan bob rhanbarth heriau gwahanol i fynd i'r afael â nhw, e.e. natur wledig, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bod gweithio rhanbarthol yn llwyddiant, ond rydym yn credu bod hyblygrwydd o dan strategaeth genedlaethol yn hanfodol.

33. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng y cyrff yn ystod y cyfnod cychwynnol o sefydlu'r consortia. Er ein bod yn croesawu'r ffaith eu bod bellach yn gweithio gyda'i gilydd gydag ymdeimlad o gydweithredu, rydym yn parhau i bryderu am sut y mae'r consortia yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, roedd yn ymddangos mai prin oedd y wybodaeth ar draws consortia am y prosiectau ymchwil sy'n digwydd ym mhob consortiwm.

34. Wrth symud ymlaen i ranbartholi gwasanaethau eraill, rydym yn credu y dylid dysgu'r wers o brofiadau'r consortia ac y dylai Llywodraeth Cymru bennu canllawiau a fframweithiau clir i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu'n rhanbarthol i weithio tuag atynt o'r cychwyn.

*Yr ôl troed rhanbarthol*

35. Trafododd y Pwyllgor gyda'r tystion y risgiau a'r manteision o newid yr ôl troed rhanbarthol ar gyfer y consortia yn sgil unrhyw newidiadau i'r strwythurau rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol.

36. Dywedodd y tystion fod nifer o risgiau o newid y strwythurau presennol, oherwydd y gallai hyn erydu cynnydd cadarnhaol y consortia at welliannau addysgol. Ar ben hynny, roedd pryderon y gellir gwneud newidiadau i strwythur y consortia addysgol rhanbarthol i fynd i'r afael â rhai o broblemau'r strwythur llywodraeth leol, oherwydd y dylai'r ffocws ar gyfer unrhyw newidiadau i'r consortia fod yn seiliedig ar welliant addysgol.

37. Cawsom dystiolaeth ynghylch pryderon sylweddol am y nifer o arweinwyr ysgolion da a'r risg posibl o drosiant staff yn sgil amgylchedd ansicr, a allai achosi ansefydlogrwydd. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig gosod llwybr clir ar gyfer y strwythur rhanbarthol dros y tymor canolig i'r tymor hir i roi'r sicrwydd sydd ei angen ar bobl.

---

[6] Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 361

38. Roedd peth cytundeb ymhlith y tystion fod budd amlwg i unrhyw fodel rhanbarthol fod yn cydffinio â gwasanaethau presennol yn y dyfodol. Ni chafodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth glir ynghylch a fyddai'n well i ddilyn strwythur y byrddau iechyd lleol neu'r rhanbarthau datblygu economaidd. Fodd bynnag, awgrymodd Estyn fod rhywfaint o fudd i ddefnyddio'r ffiniau economaidd, oherwydd:

> "…if you think of pre-16 education going through into post-16, and an alignment, so that you've got schools and post-16 providers mapping the skillset in a region to the economic skills of a particular region, using labour market information ultimately, the economic footprint on an economic model tends to make sense, because you're then developing learners who've got the necessary skills for the economic market within their region, assuming there's not a lot of cross-Wales movement of labour at the moment."[7]

39. O ystyried bod y consortia wedi'u sefydlu a'i bod yn ymddangos i fod yn gwella ac yn aeddfedu, rydym yn credu bod gwerth mewn cynnal y strwythur hwn (gan gydnabod y gallai fod rhai addasiadau bach).

*Llywodraethu ac atebolrwydd mewn strwythur rhanbarthol*

40. Cododd y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch y berthynas rhwng awdurdodau addysg lleol a chonsortia addysg rhanbarthol, ac a oes digon o eglurder rhwng eu rolau i ganiatáu digon o atebolrwydd i'r etholwyr.

41. Mae arweinyddiaeth yn allweddol er mwyn i weithio rhanbarthol fod yn llwyddiant. Mae'n hanfodol bod aelodau etholedig yn ymwneud â'r broses a'u bod yn deall eu rôl yn y broses graffu.

42. Roedd ymatebion y tystion yn nodi bod hwn yn fater byw sy'n cael ei ystyried a'i ddatblygu o hyd. Fel Pwyllgor, byddem yn annog bod y trefniadau llywodraethu yn cael eu hystyried yn drylwyr i sicrhau bod y cyfrifoldebau'n glir a bod modd i'r etholwyr barhau i weld yn amlwg pa gynrychiolwyr lleol sy'n gyfrifol.

43. Nid yw Estyn wedi rhoi unrhyw farn arolygu ar effaith y consortia, ac yn ystod y sesiwn dystiolaeth amlinellodd nifer o anawsterau wrth wahanu cyflawniadau ysgolion unigol ac effaith y consortia. Dywedodd na fyddai'n ceisio gwneud hynny yn y dyfodol agos.

---

[7] Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 273

44. Rydym yn credu bod angen ystyried sut i farnu llwyddiant/effaith gweithio rhanbarthol lle mae hyn yn parhau i orwedd ochr yn ochr â chyfrifoldebau lleol. Yn achos addysg, mae ysgolion unigol yn cael dylanwad sylweddol ac yn gyfrifol am benderfyniadau yn y pen draw, sy'n ei gwneud yn gymhleth ar y gorau i weld beth yw effaith y consortia rhanbarthol.

45. Hefyd, roedd yr arolwg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn dangos bod llawer yn y proffesiwn addysgu heb fawr o wybodaeth/dealltwriaeth o'r hyn y mae'r consortia yn ei wneud. Gan gydnabod y ddadl a gyflwynwyd gan ein tystion mai gwella ysgolion a chanlyniadau cadarnhaol yw'r hyn sy'n bwysig, rydym yn credu, er mwyn i weithio rhanbarthol fod yn llwyddiant, bod angen cydnabod ei fod yn cael effaith gadarnhaol.

**Casgliad**

46. I grynhoi:

- Mae'r Pwyllgor yn gyffredinol yn croesawu'r cysyniad o gyflwyno'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhag arloesi. Rydym yn credu y dylai cyflwyno'r pŵer cymhwysedd cyffredinol fynd law yn llaw â newid mewn diwylliant, gydag awdurdodau lleol yn barod i wneud defnydd llawn o'r pwerau o dan eu rheolaeth, a rhannu arfer gorau a gwybodaeth yn well.

- Ni ddylai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ond fod ar gael i'r cynghorau cymuned hynny a all ddangos rheolaeth ariannol gadarn a strategaeth glir ar gyfer ei ddefnyddio. Ni ddylid datganoli'r pŵer hwn nes i'r adolygiad cynhwysfawr o gynghorau cymuned (y cyfeirir ato yn y Papur Gwyn) gael ei gwblhau.

- Mae'r dystiolaeth o sefydlu'r consortia addysg rhanbarthol yn dangos yn amlwg bod angen pennu mandad a chyfeiriad clir o'r cychwyn wrth sefydlu strwythurau rhanbarthol. Ar ben hynny, mae angen ystyried sut y caiff effaith rhanbartholi ei mesur a'i chyfleu, a cheir tystiolaeth o hyn yn y diffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae'r consortia rhanbarthol wedi'i wneud a'r ymateb negyddol o ganlyniad.

- Mae'r Pwyllgor yn credu, wrth symud ymlaen, y dylid anelu at gymaint o gydffinio â phosibl rhwng strwythurau rhanbarthol. Dyma'r ffordd symlaf i'r cyhoedd ddeall a’r ffordd symlaf o safbwynt gweinyddu.

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-CS-0256-17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Ebrill 2017

Annwyl John

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Pan es i gyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mawrth ynghylch y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), addawais anfon copi atoch o'r ddogfen wybodaeth ddrafft y bwriedir ei hanfon at y landlordiaid a'r tenantiaid perthnasol, os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Bwriedir cyhoeddi'r ddogfen wybodaeth (a'r siart llif atodol) ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, yn unol ag adran 8 y Bil, er mwyn rhoi gwybod i denantiaid a darpar-denantiaid am effaith y Bil ar yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor ar y ddogfen ddrafft.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**DRAFFT**

# GWYBODAETH AM DDIWEDD YR HAWL I BRYNU A'R HAWL I GAFFAEL

## Gwybodaeth i Denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol

Nodwch: Mae'r canllawiau hyn yn cynnig enghraifft o'r math o wybodaeth a allai gael ei chyflwyno i denantiaid gan eu landlord cymdeithasol, os bydd y Bil i ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cawsant eu cynhyrchu i roi gwybodaeth gefndir i Aelodau'r Cynulliad ac i randdeiliaid yn ystod y broses graffu - pe bai unrhyw gwestiynau'n codi ynglŷn â sut y byddai newid o'r fath yn cael ei drosglwyddo i denantiaid. Nid yw cynhyrchu'r canllawiau drafft hyn yn rhagdybio canlyniad hynt y Bil drwy'r Senedd mewn unrhyw fodd.

## CRYNODEB

- Bydd yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn dod i ben ar gyfer pob tenant i landlord cymdeithasol ar **[mewnosod dyddiad diddymu'r hawliau]**

- Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r hyn y mae angen ichi ei wybod am ddiwedd yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, a'r hyn y dylech ei wneud os byddwch yn ystyried prynu eich cartref gan yr awdurdod lleol (y cyngor) neu gan gymdeithas dai.

- Os byddwch yn byw mewn ardal lle y mae'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael wedi'u hatal dros dro, ni allwch brynu eich cartref o dan y cynlluniau hyn.

- Nid yw'r canllawiau hyn rhoi cyngor cyfreithiol, a dylech geisio cyngor ar wahân os byddwch am brynu eich cartref.

## Yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael - Yr Egwyddorion Sylfaenol

Os yw eich landlord yn un o'r awdurdodau lleol, mae'n bosibl bod gennych yr **Hawl i Brynu**. Mae'r Hawl i Brynu yn caniatáu i denantiaid diogel cymwys awdurdodau lleol brynu eu cartref am bris gostyngol i werth yr eiddo ar y farchnad. Uchafswm y gostyngiad sydd ar gael yw £8,000.

Os yw eich landlord yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn fel "cymdeithas dai", mae'n bosibl bod gennych yr **Hawl i Gaffael.** Mae'r Hawl i Gaffael yn caniatáu i denantiaid sicr a diogel cymwys i gymdeithasau tai brynu eu cartref am bris gostyngol i werth yr eiddo ar y farchnad. Uchafswm y gostyngiad sydd ar gael yw £8,000. Nid yw'r Hawl i Gaffael yn berthnasol mewn rhai ardaloedd gwledig dynodedig.

Os oedd eich cartref yn eiddo i awdurdod lleol ond cafodd ei drosglwyddo i landlord arall, fel cymdeithas dai, tra oeddech yn byw ynddo, mae'n bosibl bod gennych yr **Hawl i Brynu a Gadwyd**. Mae'r cynllun hwn yn debyg iawn i gynllun yr Hawl i Brynu, ac uchafswm y gostyngiad sydd ar gael yw £8,000 hefyd.

Cyn ichi ddechrau meddwl am brynu eich cartref, rhaid ichi gael gwybod a ydych yn gymwys i wneud hynny. I fod yn gymwys am unrhyw rai o'r gostyngiadau uchod, rhaid eich bod wedi rhentu eich cartref gan landlord yn y sector cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol, cymdeithas dai, Ymddiriedolaeth y GIG) am bum mlynedd. Ond nid oes rhaid i hynny olygu pum mlynedd yn olynol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar yr hyn sydd ei angen i fod yn gymwys yn y dolenni cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon, neu gallwch gael yr wybodaeth hon gan eich landlord.

## Diwedd yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael

Mae'r Hawl i Brynu, yr Hawl i Gaffael a'r Hawl i Brynu a Gadwyd yn dod i ben i bob tenant yng Nghymru ar **[mewnosod dyddiad diddymu'r hawliau].** Mae hyn yn rhan o Ddeddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 20**[XX].**

Os ydych yn gallu arfer hawl i brynu eich cartref, gallwch gyflwyno eich cais erbyn **[insert date of abolition]** a chaiff ei ystyried yn y ffordd arferol. Ni chaiff ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

Os byddwch yn gwneud cais yn agos at **[insert date of abolition]**, byddai'n werth ichi anfon eich cais at eich landlord drwy bost cofnodedig i sicrhau bod y dyddiad y mae'n cael ei dderbyn wedi'i nodi, neu ewch â'r cais eich hun i swyddfa eich landlord i sicrhau ei fod yn cyrraedd mewn pryd. Os byddwch yn mynd â'r cais yn bersonol, byddai'n werth ichi ofyn am dderbynneb sy'n dangos y dyddiad y cafodd ei dderbyn gan eich landlord.

Rhaid ichi gymryd gofal i sicrhau bod yr holl fanylion ar eich ffurflen gais yn gywir. Os nad ydynt yn gywir, yna mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod. O gofio hynny, mae'n well peidio â gadael gwneud cais yn hwyr. Byddai'n well caniatáu cymaint o amser ag sy'n bosibl i ddatrys unrhyw broblemau a allai godi.

Os bydd gennych ôl-ddyledion rhent neu'r dreth gyngor pan fyddwch yn prynu eich cartref, gall eich landlord wrthod ei werthu i chi. Dylech wneud yn siŵr eich bod wedi gwneud pob taliad sydd angen ei wneud rhag ofn bod hynny'n achosi problem.

Os bydd unrhyw beth ar y ffurflen gais nad ydych yn ei ddeall, neu os byddwch yn ansicr ynglŷn â'r wybodaeth y mae'n rhaid ichi ei chynnwys, bydd eich landlord yn gallu eich helpu.

Ni fydd rhoi terfyn ar yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn effeithio ar eich tenantiaeth mewn unrhyw fordd arall.

## Yr Ardaloedd hynny y mae'r Hawliau wedi'u Hatal Dros Dro ynddynt

Mae'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael wedi'u hatal dros dro yn Ynys Môn, Caerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, ac yn Abertawe. Os byddwch yn byw yn un o'r ardaloedd hyn, ni fyddwch yn gallu prynu eich cartref o dan y cynlluniau hyn. Bydd eich landlord yn gallu rhoi rhagor o fanylion ichi os byddwch yn byw yn un o'r ardaloedd hyn.

## Diddymu'r hawliau ar gyfer cartrefi newydd yn unig

Bydd yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Gaffael a'r Hawl i Brynu a Gadwyd yn dod i ben ar gyfer "cartrefi newydd" yn unig ar [**insert date 2 months after Royal Assent**]. "Cartref newydd" yw un sydd heb gael ei roi ar osod fel tŷ cymdeithasol am y chwe mis cyn **[insert date 2 months after Royal Assent],** er enghraifft eiddo a adeiladwyd o'r newydd, neu gartref y mae'r landlord wedi'i brynu yn ddiweddar.

Mae yna rai eithriadau os byddwch yn cael eich gorfodi i symud i "gartref newydd". Gofynnwch i'ch landlord am wybodaeth bellach os byddwch yn y sefyllfa hon.

**Ffyrdd eraill o brynu cartref**

Mae'n bosibl y bydd mathau eraill o gymorth ar gael i'ch helpu i brynu cartref. Siaradwch â'ch landlord neu ewch i wefan Llywodraeth Cymru **[insert link to http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-supply/buying-and-selling/help-for-buying/?lang=cy**

i gael rhagor o wybodaeth.

**Cyngor ariannol a chyfreithiol**

Mae prynu cartref yn ymrwymiad mawr. Mae perchen ar gartref yn golygu costau yn ogystal â manteision. Mae'r costau'n cynnwys: pris y cartref (ar ôl y gostyngiad priodol), costau cyfreithiol, ffioedd cynnal arolwg, a rhai trethi o bosib, e.e. Treth Stamp/Treth ar Drafodiadau sy'n Ymwneud â Buddiannau mewn Tir. Ar ôl prynu'r cartref, bydd taliadau misol ar gyfer y dreth gyngor a'r morgais (os bydd gennych un), gan gynnwys costau parhaol eraill, sy'n cael eu cynnwys yn eich rhent ar hyn o bryd, e.e. gwaith atgyweirio, cynnal a chadw, ac yswiriant adeiladau. Os ydych yn berchen ar eich cartref, bydd rhaid ichi dalu am y rhain. Dylech gofio hefyd y gallai cyfraddau llog morgais gynyddu ar ryw adeg.

Mae'n bwysig cael cyngor proffesiynol, er enghraifft, ar faterion ariannol. Dylech hefyd ystyried cael cyngor cyfreithiol. Gallai sefydliadau fel eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol egluro'r ffordd orau o fynd ati. Mae hynny'n arbennig o bwysig os bydd rhywun wedi cynnig eich helpu i brynu eich cartref (yn gyfnewid am drosglwyddo perchentyaeth y cartref i'r unigolyn hwnnw yn y dyfodol o bosib) neu os bydd rhywun wedi cynnig cyngor am ffi.

**Gwybodaeth bellach**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi’r llyfryn canllaw 'Eich Hawl i Brynu eich Cartref – arweiniad i denantiaid landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru'. Mae'n cynnig gwybodaeth gyffredinol am reolau'r Hawl i Brynu a sut i wneud cais. Gallwch ei weld yma:

https://www.nwha.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/150801-your-right-to-buy-your-home-cy.pdf

Gallwch weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr Hawl i Gaffael yma:

http://gov.wales/docs/desh/publications/170203-the-right-to-acquire-en.pdf

Os hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Gaffael neu'r Hawl i Brynu a Gadwyd, gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru drwy e-bost i **righttobuy@wales.gsi.gov.uk** neu gallwch ffonio **[insert phone number]**.

Os bydd arnoch angen gwybodaeth fwy penodol am brynu eich cartref eich hun, dylech gysylltu â'ch landlord.

Bydd eich landlord yn gallu rhoi ichi ffurflen ar gyfer gwneud cais am yr Hawl i Brynu, neu gallwch lawrlwytho'r ffurflen yma:

http://gov.wales/docs/desh/publications/150122-notice-claiming-right-to-buy-en.pdf


**[ insert link to Right to Acquire application form]**

Os hoffech gael copïau caled o unrhyw rai o'r dogfennau hyn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn **[righttobuy@wales.gsi.gov.uk and insert office address]** neu ffoniwch **[insert phone number]**.

# DRAFFT

## Ai tenant ydych chi sydd â'r Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd neu'r Hawl i Gaffael eich cartref?

Mae'r siart isod yn rhoi amlinelliad i denantiaid o'r sefyllfa mewn perthynas â'r Hawl i Brynu (HIB), yr Hawl i Brynu a Gadwyd (HIBG), neu'r Hawl i Gaffael (HIG), os bydd y "Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)" yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



# DRAFFT

## Ai tenant ydych chi sydd â'r Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd neu'r Hawl i Gaffael eich cartref?

Mae'r siart isod yn rhoi amlinelliad i denantiaid o'r sefyllfa mewn perthynas â'r Hawl i Brynu (HIB), yr Hawl i Brynu a Gadwyd (HIBG), neu'r Hawl i Gaffael (HIG), os bydd y "Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)" yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-17 Papur 7/ Paper 7

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

26 Ebrill 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Hawliau Dynol yng Nghymru**

Rydym wedi dechrau ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru Mae ein hymchwiliad yn edrych ar:

– effaith penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd ar y modd yr amddiffynnir hawliau dynol yng Nghymru;

– effaith cynnig Llywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno Deddf Hawliau Prydeinig i gymryd ei le; a

– chanfyddiadau'r cyhoedd o ran hawliau dynol yng Nghymru, yn arbennig pa mor ddealladwy a pherthnasol ydynt i bobl Cymru.

Rydym yn ysgrifennu atoch, oherwydd eich rôl ar y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Drafodaethau’r UE.

Rydym wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig, ac wedi dechrau cymryd tystiolaeth lafar, gan glywed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Dr Simon Hoffman a’r Athro Thomas Glyn Watkin.

Yn y cyfnod cynnar hwn, roeddem am ofyn pa sylwadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i Lywodraeth y DU i sicrhau bod amddiffyn hawliau dynol yn

ganolog i'r trafodaethau ynglŷn â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym eisoes wedi clywed tystiolaeth yn mynegi pryder y bydd y fframwaith cyfreithiol hawliau dynol yn y DU yn cael ei wanhau pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn oherwydd bod y fframwaith hawliau dynol presennol yn cael ei danategu i raddau helaeth gan rwymedigaethau cytuniad yr UE.

Er bod Llywodraeth y DU wedi datgan ei bwriad i gynnal lefel amddiffyniad hawliau dynol yn unol â'r UE ar yr adeg pan fydd y DU yn gadael yr UE, rydym wedi clywed pryderon am y risg o wahaniaeth cynyddol os bydd yr Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno rhagor o amddiffyniadau, na fydd y DU yn dewis cyd-fynd â hwy efallai. Rydym wedi clywed pryderon am effaith colli cyllid o’r Undeb Ewropeaidd sy'n cefnogi’r seilwaith cydraddoldebau a hawliau dynol a beth fydd hyn yn ei olygu o ran amddiffyn hawliau dynol.

Mae pryderon sylweddol hefyd ynghylch colli amddiffyniadau sy'n deillio o Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE nad ydynt yn cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Dynol. Er enghraifft, gwarant o urddas dynol, gwaharddiad ar fasnachu mewn pobl a'r amddiffyniadau cymdeithasol sydd wedi’u cynnwys yn Nheitl IV y Siarter.

Rydym hefyd yn nodi bod y Prif Weinidog wedi dweud y byddai'n cynnwys mewn maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2020, adduned i dynnu'n ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw’n glir a fydd hyn yn rhan o faniffesto unrhyw blaid, ar ôl cyhoeddi etholiad cyffredinol ym mis Mehefin, a pha effaith fyddai hyn yn ei gael ar amddiffyn hawliau dynol. Byddwn yn parhau i ddilyn y datblygiadau ar hyn.

Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am ein barn ar y mater pwysig hwn. Rwy'n anfon copi at Brif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, er gwybodaeth.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-17 Papur 8/ Paper 8

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

26 Ebrill 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Diwygio Llywodraeth Leol**

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda chi ar y Papur Gwyn – 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad', mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael eglurhad o rai materion ychwanegol:

- Rhagor o wybodaeth am sut y gwneir y penderfyniad ynghylch systemau etholiadol ar gyfer awdurdodau lleol unigol; pwy fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol a faint o ymgynghori cyhoeddus y gellid disgwyl;
- Rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam na fydd newidiadau i'r system etholiadol i awdurdodau lleol yn orfodol ledled Cymru;
- Eglurhad o ran p'un a fydd lleihau'r oed pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau awdurdodau lleol yn benderfyniad i awdurdodau lleol unigol;
- Rhagor o wybodaeth am sut bydd y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gweithredu o fewn y trefniadau llywodraethu newydd arfaethedig;
- Eglurhad o gymhwysedd staff i gael taliadau diswyddo os cânt eu diswyddo gan awdurdod lleol yn sgil cyfuno gwasanaethau i drefniadau clwstwr ar draws awdurdodau lleol, ond eu bod yna'n cael eu penodi i swydd gyffelyb yn y gwasanaeth rhanbarthol cyfunol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Gyda llawer o ddiolch

Yn gywir



John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.